DARPARIAETH EFFAITH WELEDOL

nationalgrid

# Ail Adroddiad Blynyddol
Gorffennaf 2016



# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | **Rhagair gan Chris Baines** | **01** |
| | **Rhagair gan Hector Pearson** | **02** |
| **1** | **Beth yw'r Ddarpariaeth Effaith Weledol?** | **03** |
| **2** | **Prosiect Darpariaeth Effaith Weledol National Grid** | **04** |
| 2.1 | Cychwyn y prosiect | 04 |
| 2.2 | Gwella ein tirweddau gwerthfawr | 04 |
| 2.3 | Sut y gellir defnyddio'r lwfans | 04 |
| 2.4 | Canllawiau Arweiniol | 05 |
| **3** | **Cydweithio â rhanddeiliaid** | **06** |
| 3.1 | Gweithgareddau'r Grŵp Cynghori ar gyfer Rhanddeiliaid | 06 |
| 3.2 | Cynnwys a Grymuso Rhanddeiliaid yn Ehangach | 08 |
| **4** | **Rhanddeiliaid yn arwain y gwaith o flaenoriaethu cynlluniau lliniaru** | **10** |
| 4.1 | Proses dryloyw ar gyfer blaenoriaethu cynlluniau | 10 |
| 4.2 | Cynlluniau a flaenoriaethwyd gan y Grŵp Cynghori ar gyfer Rhanddeiliai | 11 |
| **5** | **Menter Gwella'r Dirwedd** | **20** |
| 5.1 | Gair am Fenter Gwella'r Dirwedd | 20 |
| 5.2 | Sut mae'r Fenter yn gweithio | 20 |
| **6** | **Y camau nesaf a'r llinell amser** | **21** |


Aelodau'r Grŵp Cynghori ar gyfer Rhanddeiliaid:

# Rhagair gan Chris Baines

**Dyma ail adroddiad blynyddol prosiect Darpariaeth Effaith Weledol National Grid. Mae'r adroddiad manwl ar y tudalennau a ganlyn yn dangos faint o waith trwyadl iawn sydd wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf, ond mae llawer i'w wneud o hyd.**

Prif dasg Grŵp Cynghori ar gyfer Rhanddeiliaid y prosiect fu ystyried y deuddeg lleoliad mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNEoedd) a Pharciau Cenedlaethol y nodwyd eu bod yn cael y flaenoriaeth uchaf. Mae pob un ohonynt, yn sicr, wedi'u heffeithio gan beilonau a llinellau trydan ac, yn amlwg, yn haeddu'r gwaith y gall y prosiect ei gynnig i wella'r dirwedd. Gyda chymorth technegol gan beirianwyr arbenigol National Grid ac ymgynghorwyr tirwedd, daeth y Grŵp Cynghori ynghyd a defnyddio'u harbenigedd yn y dirwedd a'u barn broffesiynol. Roeddwn wrth fy modd pan ddaethom i benderfyniad unfrydol i flaenoriaethu pedwar o'r safleoedd oedd ar y rhestr fer. Er nad oedd gwasgariad daearyddol yn rhan o'n briff, roedd yn braf gweld, trwy gyd-ddigwyddiad, bod safleoedd mewn AHNEoedd a Pharciau Cenedlaethol wedi'u dewis, gydag un yng Nghymru, un yng ngogledd Lloegr a dau yn ne Lloegr.

Mae pob safle a gyrhaeddodd y rhestr fer mewn tirwedd eithriadol o hardd a bregus ac mae cael gwared o'r peilonau a rhoi'r llinellau o dan y ddaear yn siŵr o fod yn anodd o safbwynt technegol. Mae pob un o'r safleoedd yn wahanol iawn i'w gilydd. Ymhlith yr anawsterau mae'r ddaeareg waelodol, archaeoleg guddiedig, ecoleg sensitif a gallu'r cyhoedd i fynd a dod. Bydd y gwaith yn siŵr o darfu ar ffermwyr a pherchnogion y tir dan sylw ond rydym yn ddiolchgar iawn am eu cydweithrediad.

Un o'r agweddau mwyaf calonogol ar y broses Darpariaeth Effaith Weledol yw'r ymgynghori eang a wnaed yn lleol.

Ym mhob un o'r pedair tirwedd, cafwyd cefnogaeth wych gan arbenigwyr – ecolegwyr, archaeolegwyr, haneswyr ac eraill – a gwneir pob ymdrech i roi gwybod i'r cymunedau cyfagos am hynt y gwaith trwy arddangosfeydd galw heibio a llawer o drafod wyneb yn wyneb. Mae aelodau'r Grŵp Cynghori ar gyfer Rhanddeiliaid wedi chwarae rhan flaenllaw yn y broses ac rwy'n credu bod pawb ohonom wedi'n plesio â'r ymateb cadarnhaol a ddangoswyd i gynlluniau'r prosiect Darpariaeth Effaith Weledol yn gyffredinol.

Er bod y gwaith asesu technegol ar gyfer pob un o'r prosiectau tanddaearu mawr yn parhau, mae'n bleser gennyf gyhoeddi bod y Fenter Gwella'r Dirwedd wedi'i lansio'n ffurfiol ym mis Mai 2016. Mae'r Fenter yn cynnig grantiau ar gyfer prosiectau ymarferol, llai o faint, mewn AHNEoedd a Pharciau Cenedlaethol y mae llinellau trawsyrru National Grid yn effeithio arnynt. Bu'r ymateb brwd i'r fenter yn galonogol iawn. Felly, er y bydd yn cymryd sawl blwyddyn i gael gwared o ddarnau cyfan o linellau trawsyrru, gellir disgwyl canlyniadau cadarnhaol cyntaf y prosiect o fewn y flwyddyn nesaf.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'm cydweithwyr yn y Grŵp Cynghori ar gyfer Rhanddeiliaid am eu cefnogaeth egnïol a llawn dychymyg i'r prosiect Darpariaeth Effaith Weledol. Dyma batrwm o waith rhannu gwybodaeth a thrafod creadigol y byddai'n werth i eraill ei fabwysiadu, yn enwedig pan fyddant yn wynebu prosiectau seilwaith mawr fel hyn.



**Chris Baines**

Cadeirydd y Grŵp Cynghori ar gyfer Rhanddeiliaid
**Prosiect Darpariaeth Effaith Weledol**

# Rhagair gan Hector Pearson

**Mae'r prosiect Darpariaeth Effaith Weledol yn dal yn brosiect seilwaith unigryw – o ran ei uchelgais i leihau effaith weledol llinellau trawsyrru trydan foltedd uchel sy'n bodoli eisoes ac am fod penderfyniadau allweddol yn cael eu gwneud gan randdeiliaid sy'n adnabod ein tirwedd ac yn ei gwerthfawrogi.**

Mae'r prosiect yn dal i gynnig cyfle gwirioneddol, nid yn unig i leihau effaith weledol ein seilwaith trydan presennol mewn tirweddau gwerthfawr, ond hefyd i wella'r tirweddau hynny ac i annog pobl i'w mwynhau ac i fuddsoddi ynddynt.

Cymerwyd camau breision dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda National Grid a rhanddeiliaid ar lefel Brydeinig a lleol yn cydweithio er budd tirweddau mewn AHNEoedd a Pharciau Cenedlaethol.

Mae barn rhanddeiliaid wedi helpu i lywio ein cynlluniau ar hyd y ffordd. Mae Grŵp Cynghori ar gyfer Rhanddeiliaid y prosiect, o dan gadeiryddiaeth Chris Baines wedi gwneud penderfyniadau anodd trwy ddewis blaenoriaethu pedwar cynllun lle bydd cebl tanddaear yn cael ei roi yn lle llinell uwch ben.

Wrth flaenoriaethu'r prosiectau hyn, roedd y Grŵp o'r farn mai dyma'r cynlluniau fydd yn sicrhau'r budd mwyaf trwy leihau effaith weledol ein llinellau uwch ben yn rhai o dirweddau mwyaf gwerthfawr Cymru a Lloegr. Nid oedd yn dasg a gymerwyd yn ysgafn a hoffwn ddiolch i bawb ohonynt am eu gwaith caled a'u hymroddiad i'r prosiect.

Yn dilyn argymhellion y Grŵp, mae tîm y prosiect a'i gynghorwyr wedi gwneud gwaith dichonoldeb technegol, yn cynnwys astudiaethau amgylcheddol, astudiaethau archaeolegol a gwaith peirianyddol ar gyfer pob un o'r pedwar cynllun.

Ym mhob un o'r ardaloedd, rydym wedi gwneud llawer o waith gyda rhanddeiliaid i gyfrannu at waith asesu a datblygu'r cynllun. Sefydlwyd Grwpiau Cyfeirio ar gyfer Rhanddeiliaid Lleol, yn cynnwys arbenigwyr technegol sydd â gwybodaeth drwyadl am faterion lleol a chynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd i helpu i roi ymateb ac arweiniad i ni.

Gwnaed y gwaith hwn ar y cyd, bu'n dryloyw ac, yn holl bwysig, mae wedi ein helpu i werthuso'r ffactorau posibl o ran y dirwedd, bywyd gwyllt, diwylliant, yr amgylchedd a materion cymdeithasol-economaidd sy'n cyfrannu at ddatblygiad y cynllun. Ar yr un pryd, roeddem yn trafod gyda pherchnogion tir ac yn cynnal sesiynau galw-heibio cymunedol er mwyn gwrando ar farn pobl leol.

Teimlir manteision y prosiect Darpariaeth Effaith Weledol y tu hwnt i'r pedwar cynllun blaenoriaeth. Wrth lansio'r Fenter Gwella'r Dirwedd, sicrhawyd bod pob un o'r 30 AHNE a Pharc Cenedlaethol y mae ein seilwaith yn effeithio arnynt yn cael cyfle i ddatblygu cynlluniau i gynnal prosiectau bach, lleol i wella'r dirwedd.

Mae'r dyfodol yn gyffrous iawn. Wrth i ni symud ymlaen â gwaith datblygu ar y pedwar prosiect blaenoriaeth ac ystyried y ceisiadau cyntaf am y Fenter Gwella'r Dirwedd, mae gan bawb ohonom gyfle ardderchog i warchod a gwella harddwch naturiol rhai o'n tirweddau mwyaf gwerthfawr.



**Hector Pearson**

Rheolwr y Prosiect Darpariaeth Effaith Weledol
**National Grid**

# 01: Beth yw'r prosiect Darpariaeth Effaith Weledol?

**Mae prosiect Darpariaeth Effaith Weledol National Grid yn defnyddio lwfans o £500m gan Ofgem i wneud gwaith i helpu i leihau effaith weledol llinellau trawsyrru trydan sydd eisoes yn eu lle mewn AHNEoedd a Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr.**

Y dasg bwysicaf i ni yw defnyddio'r lwfans hon i wella'r dirwedd yng Nghymru a Lloegr hyd eithaf ein gallu, gan osgoi effeithiau annerbyniol ar yr amgylchedd. Er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y peth gorau ac yn sicrhau bod y prosiect Darpariaeth Effaith Weledol yn esgor ar y manteision mwyaf, mae National Grid yn cydweithio'n agos gyda rhanddeiliaid.

Sefydlwyd Grŵp Cynghori ar gyfer Rhanddeiliaid gan National Grid. Mae'n cynnwys sefydliadau sy'n gweithio i warchod tirwedd a chefn gwlad ledled Cymru a Lloegr. Mae'r grŵp yn helpu National Grid i wneud penderfyniadau yn unol â'r egwyddorion arweiniol a nodir ym mholisi'r Ddarpariaeth Effaith Weledol a gaiff eu hesbonio yn Adran 2. Trwy weithio fel hyn, ein nod yw sicrhau tegwch a chydbwysedd wrth wneud penderfyniadau er mwyn helpu i ddewis y prosiectau y byddwn yn ymgymryd â nhw.

Mae'r ail adroddiad blynyddol hwn yn rhoi trosolwg o'r prosiect Darpariaeth Effaith Weledol a gweithgareddau allweddol y prosiect yn ystod 2015/16, yn bennaf rhwng Mai 2015 a Mai 2016. Mae gan National Grid dîm penodol sy'n gweithio ar y prosiect ac maent wedi cael cefnogaeth cynghorwyr allanol arbenigol, yn cynnwys yr Athro Carys Swanwick ym maes asesu'r dirwedd, arbenigwyr technegol o Gillespies a LUC, ac mae Camargue yn gynghorwyr iddynt ym maes cyfathrebu. Mae Bruton Knowles wedi helpu gyda materion mynediad i dir a bu Aecom yn ymgynghorwyr amgylcheddol iddynt.



AHNE High Weald

# 02: Prosiect Darpariaeth Effaith Weledol National Grid

## 2.1 Cychwyn y prosiect

**Mae perchnogion cynlluniau trawsyrru trydan yn cael eu hariannu gan fecanwaith rheoli prisiau y cytunir arno ac a bennir gan Ofgem, sef rheoleiddiwr y marchnadoedd trydan a nwy. Mae Ofgem wedi cytuno ar set o fesurau rheoli prisiau a chymelliadau ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2013 a Mawrth 2021. Mae'r mesurau rheoli prisiau a'r cymelliadau yn cynnwys lwfans o £500 miliwn i leihau effaith weledol seilwaith trydan presennol mewn tirweddau sydd wedi'u gwarchod yn genedlaethol ym Mhrydain.**

I National Grid, sy'n berchen ar y rhwydwaith trawsyrru trydan yng Nghymru a Lloegr, mae hyn yn golygu ystyried amwynder gweledol ein seilwaith presennol mewn Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNEoedd). Rydym yn galw hyn yn 'Darpariaeth Effaith Weledol'.

## 2.2 Gwella ein tirweddau gwerthfawr

**Mae AHNEoedd a Pharciau Cenedlaethol yn dirweddau o bwysigrwydd cenedlaethol sy'n cael eu gwarchod trwy ddulliau statudol. Rydym ni yn National Grid yn credu'n angerddol mewn chwarae ein rhan i warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y tirweddau hyn.**

Rydym yn manteisio ar y cyfle y mae'r gronfa'n ei greu i gydweithio â rhanddeiliaid i wneud hyn. Wrth gwrs, rydym yn cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol, rhwymedigaethau ein trwyddedau a pholisi cynllunio cenedlaethol. Yn neilltuol, mae arnom ddyletswyddau i gynnal ein rhwydwaith mewn ffordd ddarbodus ac effeithlon, i warchod mwynderau ac i gadw a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr AHNEoedd a'r Parciau Cenedlaethol.

## 2.3 Sut y gellir defnyddio'r lwfans

**Mae'r prosiect Darpariaeth Effaith Weledol yn berthnasol i'r seilwaith trydan presennol – llinellau trydan uwch ben foltedd uchel yn bennaf – mewn AHNEoedd a Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr. Mewn achosion arbennig, gall fod yn berthnasol hefyd i linellau sy'n rhedeg gerllaw'r tirweddau gwarchodedig hyn os ydynt yn effeithio ar yr olygfa.**

**Gellir defnyddio'r lwfans ar gyfer:**

- Gwaith tirlunio
- Sgrinio is-orsafoedd neu linellau uwch ben o fannau lle maent i'w gweld gan y cyhoedd
- Newid llwybr llinellau presennol
- Rhoi ceblau tanddaear yn lle llinellau uwchben
- Technegau paentio dyfeisgar i leihau effaith weledol peilonau
- Cynnwys mentrau yng nghynlluniau rheoli AHNE neu Barc Cenedlaethol i leihau effaith ein seilwaith trydan
- Camau eraill a argymhellir gan randdeiliaid i leihau yr effaith weledol.


Mae gan y Grŵp Cynghori ar gyfer Rhanddeiliaid y dasg anodd o benderfynu, ar y cyd â National Grid, pa brosiectau i'w dewis a sut y gellid dyrannu'r arian.

**Ni ellir defnyddio'r arian:**

- I adeiladu seilwaith newydd
- Ar gyfer seilwaith arall National Grid fel trawsyrru nwy
- Ar gyfer dynodiadau eraill, fel tirwedd, treftadaeth neu ecoleg
- Ar gyfer seilwaith sy'n eiddo i fusnesau eraill
- Ar gyfer unrhyw ardal nad yw wedi'i dynodi'n AHNE neu Barc Cenedlaethol hyd yma.

## Dimensiynau'r prosiect

- **571km** o linellau trawsyrru trydan National Grid mewn **AHNEoedd** a **Pharciau Cenedlaethol**
- **30 AHNE** a **Pharc Cenedlaethol** yng Nghymru a Lloegr wedi'u cynnwys yn y prosiect
- **53.7km** o linellau mewn **12 adran** mewn wyth ardal a warchodir = yr effaith fwyaf
- **Pedair adran** o'r llinellau uwch ben wedi'u blaenoriaethu ar gyfer tanddaearu
- Y Fenter Gwella'r Dirwedd = **hyd at £24m ar gyfer gwelliannau gweledol lleol**




### 2.4 Egwyddorion Arweiniol

**Ein Hegwyddorion Arweiniol yw blaenoriaethu prosiectau posibl sydd:**

- Yn arwain at y manteision mwyaf o ran gwella'r dirwedd
- Yn arwain at y cyfleoedd mwyaf i warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol, gan osgoi effeithiau annerbyniol ar yr amgylchedd
- Yn arwain at y cyfleoedd mwyaf i annog dealltwriaeth a mwynhad y cyhoedd o'r tirweddau a warchodir, yn cynnwys effeithiau cymdeithasol-economaidd cadarnhaol
- Yn dechnegol-ymarferol yng nghyd-destun y sytem drawsyrru ehangach
- Yn ddarbodus ac yn effeithlon.

Gan y gall yr Egwyddorion Arweiniol hyn wrthdaro â'i gilydd weithiau a bod pob cynllun yn debygol o berfformio'n wahanol mewn perthynas â nhw, bydd angen bod yn ofalus sut rydym yn cydbwyso ein dewisiadau, gyda chymorth rhanddeiliaid.

# 03: Cydweithio â rhanddeiliaid

**Gan y rhanddeiliaid y mae'r allwedd i lwyddiant y prosiect. Credwn fod barn ein rhanddeiliaid a'n defnyddwyr yn hanfodol er mwyn penderfynu sut y dylem ddefnyddio'r Ddarpariaeth Effaith Weledol i wneud y gwelliannau mwyaf posibl i'r dirwedd gan ddefnyddio'r arian sydd ar gael.**

## 3.1 Gweithgareddau'r Grŵp Cynghori ar gyfer Rhanddeiliaid

Lansiwyd y Grŵp Cynghori ar gyfer Rhanddeiliaid i wasanaethu'r prosiect Darpariaeth Effaith Weledol ym mis Ebrill 2014. Yr amgylcheddwr blaenllaw, Chris Baines, yw'r cadeirydd ac mae'r grŵp yn cynghori National Grid wrth asesu a dewis y prosiectau a gynigir. Mae'r Grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau sy'n ymwneud â gwella'r dirwedd a chefn gwlad ledled Cymru a Lloegr, ynghyd ag Ofgem a National Grid ei hunan (gweler tudalen 1). Maent yn cynghori'r prosiect nid yn unig ar y penderfyniadau allweddol ond hefyd ar y ffyrdd mwyaf effeithiol o ymwneud â rhanddeiliaid lleol y tu allan i'r prif grŵp.

Rôl y Grŵp Cynghori ar gyfer Rhanddeiliaid yw:

- Helpu i bennu blaenoriaethau cychwynnol ar gyfer defnyddio'r Ddarpariaeth Effaith Weledol, wedi'u seilio ar ein hegwyddorion arweiniol
- Ystyried cyfraniadau technegol National Grid
- Ystyried cyfraniad rhanddeiliaid ehangach nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n uniongyrchol ar y Grŵp Cynghori ar gyfer Rhanddeiliaid (e.e. sylwadau penodol ar fannau lle gallai fod yn fuddiol defnyddio arian y Ddarpariaeth Effaith Weledol neu lle ceir tystiolaeth o gefnogaeth y cyhoedd)
- Pennu'r seilwaith a'r lleoliadau penodol a fyddai'n elwa fwyaf
- Diffinio'r prosiectau y dylai National Grid eu datblygu
- Ailystyried neu ailasesu blaenoriaethau a'r ffordd o ddefnyddio'r arian wrth i'r prosiectau ddatblygu.

Yn ystod 2015/16, cyfarfu'r Grŵp Cynghori ar gyfer Rhanddeiliaid ddwywaith ac mae cofnodion y cyfarfodydd hynny ar gael ar wefan y prosiect **www.nationalgrid.com/VIP**. Mae'r tabl dros y dudalen yn rhoi trosolwg o'r gweithgareddau a'r materion allweddol y bu'r grŵp yn eu hystyried dros y flwyddyn ddiwethaf.

AHNE Dyffryn Tamar



| Cyfarfod y Grŵp Cynghori ar gyfer Rhanddeiliaid | Y prif eitemau a drafodwyd |
|---|---|
| 6ed Cyfarfod (8-9 Medi 2015) | ■ Ystyried ac adolygu gwybodaeth am gamau lliniaru posibl ar gyfer pob un o'r deuddeg ardal a roddwyd ar y rhestr fer ym mis Hydref 2014, yn cynnwys gwaith technegol ac ymateb gan randdeiliaid lleol<br>■ Trafod manteision cymharol y camau lliniaru yn nhermau'r egwyddorion arweiniol a nodir ym mholisi'r Ddarpariaeth Effaith Weledol<br>■ Cytuno i flaenoriaethu pedair o'r deuddeg ardal ar y rhestr fer a symud ymlaen â nhw i'r cyfnod datblygu (gweler Adran 4 isod)<br>■ Sôn am hynt y gwaith o sefydlu'r Fenter Gwella'r Dirwedd (gweler Adran 5 isod). |
| 7fed Cyfarfod (19 Ebrill 2016) | ■ Sôn am hynt y pedwar cynllun a flaenoriaethwyd, yn cynnwys trosolwg o'r gwaith technegol a thrafodaethau gyda grwpiau cyfeirio o randdeiliaid lleol, perchnogion tir a rhanddeiliaid eraill yn yr ardaloedd hynny<br>■ Sôn am y Fenter Gwella'r Dirwedd, yn cynnwys ymateb ar ôl adolygiad gan Ofgem a'r newidiadau o ganlyniad i hynny, yn ogystal â pharatoi i lansio'r fenter<br>■ Sôn am y trafodaethau gyda pherchnogion cwmnïau trawsyrru'r Alban am eu cynlluniau ar gyfer defnyddio lwfans Ofgem ac am y ffordd y byddai'r tri chwmni'n cydweithredu ac yn cyfnewid gwybodaeth. |



Parc Cenedlaethol y Peak District

**Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Grŵp Cynghori ar gyfer Rhanddeiliaid**

| Sefydliad | Presenoldeb yn y Cyfarfodydd 2015/16 |
|---|---|
| Cadeirydd | 2 allan o 2 |
| Cadw | 2 allan o 2 |
| CPRE | 2 allan o 2 |
| Croeso Cymru | 1 allan o 2 |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | 1 allan o 2 |
| Cymdeithas Genedlaethol ANHEoedd | 2 allan o 2 |
| Historic England | 2 allan o 2 |
| National Grid | 2 allan o 2 |
| National Parks England | 2 allan o 2 |
| Natural England | 2 allan o 2 |
| Ofgem | 2 allan o 2 |
| Parciau Cenedlaethol Cymru | 2 allan o 2 |
| Sefydliad Tirwedd | 2 allan o 2 |
| Visit England | 0 allan o 2 |
| Y Cerddwyr | 0 allan o 2 |
| YDCW | 1 allan o 2 |
| Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol | 2 allan o 2 |
| Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 2 allan o 2 |

## 3.2 Cynnwys a Grymuso Rhanddeiliaid yn Ehangach


Yn ogystal â chydweithio â'r Grŵp Cynghori ar gyfer Rhanddeiliaid, rydym yn dal i ymwneud â rhanddeiliaid eraill sydd â buddiant mewn AHNEoedd a Pharciau Cenedlaethol i roi gwybodaeth iddynt ac i bennu eu blaenoriaethau ar gyfer defnyddio arian y Ddarpariaeth Effaith Weledol. Bu'r Grŵp yn allweddol yn ein helpu i benderfynu sut i fynd ati i ymwneud yn ehangach â rhanddeiliaid.

Buom yn dal i gydweithio â grwpiau cyfeirio ar gyfer rhanddeiliaid ym mhob un o'r AHNEoedd a Pharciau Cenedlaethol ac roedd cynrychiolwyr o'r Bartneriaeth AHNE/Awdurdod y Parc Cenedlaethol perthnasol a rhanddeiliaid lleol eraill yn dod i'r cyfarfodydd hynny. Mae'r grwpiau hyn wedi rhoi gwybodaeth a chyngor hanfodol i'n helpu i ddatblygu opsiynau ar gyfer lleihau effaith ein llinellau trawsyrru yn yr ardaloedd hyn. Yn ystod haf 2016, bwriedir ymwneud mwy â'r grwpiau cyfeirio ar gyfer rhanddeiliaid a chynnal digwyddiadau galw heibio ar gyfer y cyhoedd yn y pedair ardal a flaenoriaethwyd.

Yn ogystal, rydym wedi dal i ymwneud â chynrychiolwyr pob un o'r 30 ardal sy'n dod o dan y prosiect Darpariaeth Effaith Weledol. Roedd hyn yn cynnwys rhoi'r newyddion diweddaraf am ein Menter Gwella'r Dirwedd (gweler Adran 5 isod). Buom mewn digwyddiadau perthnasol hefyd a rhoesom gyflwyniadau ynddynt. Buom yng nghynadleddau blynyddol Cymdeithas Genedlaethol yr AHNEoedd a Chymdeithas y Parciau Cenedlaethol am yr ail flwyddyn o'r bron.


Yn ogystal, bu ein tîm yn trafod gyda'r ddau gwmni sy'n berchen ar rwydwaith trawsyrru yr Alban, sy'n datblygu eu cynlluniau eu hunain i ddefnyddio lwfans Ofgem, er mwyn sicrhau bod Cymru, Lloegr a'r Alban yn cael y manteision mwyaf o'r lwfans.

Rydym yn defnyddio gwahanol sianeli cyfathrebu i rannu gwybodaeth, newyddion a dogfennau am y prosiect, yn cynnwys gwefan arbennig **www.nationalgrid.com/VIP**. Rydym wedi cadw mewn cysylltiad â rhanddeiliaid trwy ddatganiadau i'r cyfryngau, llythyrau at randdeiliaid ac ASau ac ACau lleol, yn ogystal â chyhoeddiadau fel crynodebau a ffeithluniau.









**Llinell amser gweithgareddau allweddol 2015/16**

### HAF 2015
- Casglu gwybodaeth ym mhob un o'r 12 ardal ar y rhestr fer
- Llawer o drafod gyda rhanddeiliaid, yn cynnwys Grwpiau Cyfeirio ar gyfer Rhanddeiliaid
- Ystyried yr holl gamau lliniaru
- Paratoi adroddiadau'n asesu'r dewisiadau.

### HYDREF-RHAGFYR 2015
Rhagor o waith datblygu'r Fenter Gwella'r Dirwedd mewn cydweithrediad â'r ardaloedd a ddynodwyd.

### GAEAF 2015/ GWANWYN 2016
- Arolygon amgylcheddol, archaeolegol a geotechnegol mewn pedair ardal flaenoriaeth
- Trafod gyda rhanddeiliaid lleol – technegol, grwpiau defnyddwyr a'r gymuned.

**2015** **2016**

### MEDI 2015
Y Grŵp Cynghori ar gyfer Rhanddeiliaid yn cyfarfod i ystyried gwybodaeth dechnegol a barn rhanddeiliaid, gan ddewis pedwar prosiect posib ar gyfer tanddaearu.

### TACHWEDD 2015
"Canmoliaeth Uchel" yng Ngwobrau'r Sefydliad Tirwedd.

### IONAWR 2016
Ofgem yn cadarnhau'r Fenter Gwella'r Dirwedd.

### MAI 2016
- Lansio'r Fenter Gwella'r Dirwedd
- Gwahodd ceisadau o bob un o'r 30 AHNE a Pharc Cenedlaethol sydd â llinellau uwch ben National Grid ynddynt.



AHNE North Wessex Downs

# 04: Rhanddeiliaid yn arwain y gwaith o flaenoriaethu cynlluniau lliniaru

**Ein hamcan ar gyfer y prosiect Darpariaeth Effaith Weledol yw gwneud y gwelliannau gorau posibl i'r dirwedd mewn AHNEoedd a Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr, gan osgoi effeithiau annerbyniol ar yr amgylchedd. Rydym yn gwneud hyn trwy broses dryloyw o dan arweiniad y Grŵp Cynghori ar gyfer Rhanddeiliaid, gan elwa ar gyfraniad arbenigwyr technegol a rhanddeiliaid lleol.**

## 4.1 Proses dryloyw ar gyfer blaenoriaethu cynlluniau

Ym mis Hydref 2014, penderfynodd y Grŵp Cynghori ar gyfer Rhanddeiliaid y dylid symud ymlaen â rhestr fer o ddeuddeg adran o linellau uwch ben mewn wyth ardal ddynodedig er mwyn cynnal rhagor o asesiadau technegol yn ystod 2015/16. Roedd hyn yn dilyn asesiad o bob un o'r 30 AHNE a Pharc Cenedlaethol y mae ein llinellau uwch ben ni yn rhedeg trwyddynt neu'n effeithio arnynt.

Ar ôl i'r Grŵp Cynghori ar gyfer Rhanddeiliaid gytuno ar y rhestr fer ym mis Hydref 2014, bu ein tîm yn cydweithio â rhanddeiliaid ac arbenigwyr technegol i ddatblygu ac asesu opsiynau ar gyfer y deuddeg adran o linellau trawsyrru oedd ar y rhestr fer. Nod y gwaith oedd galluogi'r Grŵp Cynghori ar gyfer Rhanddeiliaid i gynnig pa rai o'r ardaloedd ar y rhestr fer y dylid eu blaenoriaethu i symud ymlaen â nhw i'r cyfnod datblygu manwl.

Yn achos pob un o'r adrannau ar y rhestr fer, aethom ati, gyda chymorth ymgynghorwyr amgylcheddol ac ymgynghorwyr tirwedd arbenigol i:

- Ddatblygu gwahanol opsiynau ar gyfer pob un o'r ardaloedd er mwyn lleihau effaith ein llinellau trawsyrru presennol
- Ymchwilio i weld a fyddai'r gwahanol opsiynau'n gweithio
- Penderfynu pa opsiwn/opsiynau i'w ffafrio a threialu'r rhain gyda rhanddeiliaid lleol
- Cydweithio â swyddogion/arbenigwyr lleol i asesu effeithiau posibl yr opsiynau a ffefrid ar y dirwedd a bywyd gwyllt a'u heffeithiau amgylcheddol a chymdeithasol-economaidd yn ystod y gwaith adeiladu ac wedyn.

Wrth wneud y gwaith datblygu ac asesu hwn, buom yn ymwneud â rhanddeiliaid yn yr ardaloedd dynodedig ac â'r cyhoedd. Roedd hyn yn cynnwys gweithdai technegol gyda rhanddeiliaid yn cynnwys y cyrff sy'n gyfrifol am reoli'r ardaloedd dynodedig, awdurdodau lleol, cyrff statudol fel Natural England a Cyfoeth Naturiol Cymru, cynghorau cymuned a chyrff neu grwpiau lleol eraill. Yn ogystal, cynhaliwyd sesiynau galw heibio a oedd yn rhoi cyfle i bobl leol gael gwybodaeth am y cynlluniau, eu trafod a chynnig sylwadau arnynt. Bu'r rhan fwyaf o aelodau'r Grŵp Cynghori ar gyfer Rhanddeiliaid ar ymweliad ag un neu fwy o'r cynlluniau ar y rhestr fer.

Cafodd y gwaith hwn o ddatblygu ac asesu opsiynau lliniaru ei gyflwyno mewn adroddiadau 'Options Appraisal Study' manwl sydd i'w gweld ar wefan y prosiect.

### "Cymeradwyaeth Uchel"

Yn 2104, aethom ati i gynnal asesiad cynhwysfawr i helpu i ganfod yr adrannau hynny o'n llinellau uwch ben presennol mewn AHNEoedd a Pharciau Cenedlaethol sy'n cael yr effaith fwyaf ac sy'n cynnig y cyfleoedd gorau i liniaru'r effaith a gwella'r dirwedd. Gwnaed y gwaith gan ymgynghorwyr cynllunio tirwedd Gillespies a LUC o dan arweiniad y Cynghorydd Tirwedd, yr Athro Carys Swanwick. Cafodd y fethodoleg a ddatblygwyd ac a ddefnyddiwyd ar gyfer yr asesiad "Gymeradwyaeth Uchel" yng Ngwobrau'r Sefydliad Tirwedd 2015.




1 Yr ardaloedd a gyrhaeddodd y rhestr fer oedd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, AHNE Dorset, ANHE High Weald, Parc Cenedlaethol y New Forest, ANHE North Wessex Downs, Parc Cenedlaethol y Peak District, Parc Cenedlaethol Eryri ac AHNE Dyffryn Tamar.

## 4.2 Cynlluniau a flaenoriaethwyd gan y Grŵp Cynghori ar gyfer Rhanddeiliaid

**Roedd yr Options Appraisal Studies yn nodi dulliau posibl o liniaru effeithiau gweledol y llinellau trawsyrru yn yr ardaloedd a gyrhaeddodd y rhestr fer.**

Cynhaliodd yr ymgynghorwyr amgylcheddol a thirwedd a baratôdd yr astudiaethau hyn asesiad o'r opsiynau lliniaru a'u heffeithiau posibl. Yna gwnaethant argymhelliad am yr opsiynau mwyaf ffafriol i'w cyflwyno i'r Grŵp Cynghori ar gyfer Rhanddeiliaid. Yn ogystal, bu'n tîm ni yn trafod yr astudiaeth o'r opsiynau a'r opsiynau a ffefrid gyda rhanddeiliaid ym mhob un o'r ardaloedd dynodedig fel rhan o'r broses. Cafodd yr opsiynau a ffefrid eu cadarnhau gan weithdai rhanddeiliaid technegol yn yr ardaloedd dynodedig i gyd ond un[2].

Ystyriodd y Grŵp Cynghori ar gyfer Rhanddeiliaid ganlyniadau'r gwaith datblygu ac asesu opsiynau yn ei gyfarfod ym mis Medi 2015. Bu'r Grŵp yn asesu'r opsiynau lliniaru a gynigiwyd yn erbyn yr Egwyddorion Arweiniol ym mholisi'r Ddarpariaeth Effaith Weledol (gweler Adran 2 uchod). Ar ôl ystyried a thrafod yr opsiynau llinaru yn fanwl, cytunodd y Grŵp Cynghori yn unfrydol y dylid blaenoriaethu pedwar cynllun i symud ymlaen â nhw gyda'r posibilrwydd o danddaearu (gweler isod).

Credai'r Grŵp Cynghori mai'r cynlluniau hyn fydd fwyaf manteisiol o ran lleihau effaith weledol ein llinellau uwch ben mewn rhai o dirweddau harddaf y wlad, gan gydbwyso ymarferoldeb technegol a'r gost hefyd. Yn ogystal, dywedodd y Grŵp y dylid cadw pob un o'r cynlluniau eraill o'r rhestr fer o ddeuddeg adran ar y rhestr fer rhag ofn na ellir gweithredu un neu fwy o'r cynlluniau blaenoriaeth yn dilyn rhagor o waith datblygu manwl.

Ar y tudalennau nesaf ceir cyflwyniad i'r pedwar cynllun blaenoriaeth. Yn ystod 2015/16, rydym wedi gwneud gwaith dichonoldeb technegol, yn cynnwys astudiaethau amgylcheddol, astudiaethau archaeolegol a gwaith peirianyddol ar gyfer pob un o'r pedwar cynllun. Rydym hefyd wedi ymwneud â rhanddeiliaid ym mhob un o'r ardaloedd i gyfrannu at waith asesu a datblygu'r cynllun. Bydd y gweithgareddau hyn yn parhau yn ystod 2016/17.

### CYNLLUNIAU BLAENORIAETH



**AHNE DORSET**
Tua 7km o danddaearu, tynnu tua 18 o beilonau.

**PARC CENEDLAETHOL Y NEW FOREST**
Tua 3km o danddaearu, tynnu tuag 8 o beilonau.

**PARC CENEDLAETHOL Y PEAK DISTRICT (DWYRAIN)**
Tuag 1.8km o danddaearu, tynnu tua 7 o beilonau.

**PARC CENEDLAETHOL ERYRI**
Tua 2.5 i 3km o danddaearu, tynnu tua 6 i 10 o beilonau.

2 Yn adran Parc Cenedlaethol y Peak District (Gorllewin) (4ZO.3&4), cafodd yr opsiwn a ffefrid gefnogaeth gyffredinol y rhanddeiliaid a ddaeth i'r gweithdy technegol ond byddai'n well ganddynt pe bai un o'r compowndiau pen selio mewn lle gwahanol.

# AHNE Dorset




**Dynodwyd AHNE Dorset yn 1959. Mae'n cynnwys arfordir Dorset bron i gyd ac ardaloedd helaeth ymhellach o'r môr. Mae'r ddaeareg i'w gweld yn amlwg ar hyd yr Arfordir Jwrasig, sy'n Safle Treftadaeth Byd, ac mae'n cynnwys tirwedd amrywiol o dwyndiroedd, trumiau a dyffrynnoedd.**

Mae dwy o linellau trawsyrru trydan National Grid yn rhedeg trwy'r AHNE hon. Yng nghyfarfod y Grŵp Cynghori ar gyfer Rhanddeiliaid ym mis Medi 2015, cafodd y darn o'r llinell ger Winterbourne Abbas ei flaenoriaethu fel un o'r pedwar darn o'r llinell i'w dwyn ymlaen fel prosiect tanddaearu posibl. Mae'r adran hon tua 7km o hyd ac mae'n rhedeg o fan i'r gogledd-orllewin o Winterbourne Abbas, gan dorri ar draws yr A35 ac i'r de o Winterbourne Abbas tua'r de-ddwyrain. Yna mae'n troi ychydig tua'r de, ar draws llethrau uchaf Corton Down ar Darren De Dorset, i dir is i'r de o Friar Waddon Hill.



## Hynt y gwaith hyd yma


Sefydlodd National Grid grŵp cyfeirio i randdeiliaid sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Sir Dorset, Cyngor Dosbarth Gorllewin Dorset, Natural England, y South Dorset Ridgeway Partnership a Phrifysgol Bournemouth. Rydym hefyd wedi bod yn ymwneud â pherchnogion tir lleol, cynghorwyr wardiau, aelodau o gabinet yr awdurdod lleol ac ASau lleol ac wedi cynnal digwyddiad galw heibio i'r cyhoedd.

Mae'r opsiwn lliniaru a ffefrir ac sy'n cael ei ddatblygu yn cynnwys tynnu'r darn presennol o'r llinell uwch ben a rhoi cebl tanddaear yn ei le. Yn dibynnu ar ragor o waith datblygu ac ymgynghori â rhanddeiliaid, mae'n debygol y bydd y prosiect yn cynnwys:

- Tynnu'r llinell uwch ben bresennol am bellter o tua 7km yn cynnwys tynnu tua 18 o beilonau (yn dibynnu ar leoliad compowndiau pen selio)
- Adeiladu dau gompownd pen selio newydd a pheilonau terfynol newydd cysylltiedig i gysylltu'r ceblau tanddaear newydd â'r llinell uwch ben a fydd ar ôl
- Gosod ceblau tanddaear newydd am tua 7km (yn dibynnu ar leoliad y compowndiau pen selio a llwybr y cebl).

Yn ôl y rhaglen bresennol, os derbynnir pob cymeradwyaeth a chaniatâd angenrheidiol, bydd y gwaith ar y safle yn dechrau yng ngwanwyn/haf 2018 a bydd yn cymryd rhyw ddwy flynedd a hanner neu dair blynedd i'w gwblhau.

# Parc Cenedlaethol y New Forest




**Dynodwyd yr hen faes hela brenhinol hwn a'r ardal gyfagos yn Barc Cenedlaethol ym mis Mawrth 2005. Maent yn Hampshire ar lannau canol de Lloegr.**

Mae dwy o linellau trawsyrru National Grid yn croesi'r New Forest. Yng nghyfarfod y Grŵp Cynghori ar gyfer Rhanddeiliaid ym mis Medi 2015, cafodd y darn o'r llinell ger pentref Hale ei flaenoriaethu'n un o'r pedwar darn o'r llinell i'w dwyn ymlaen fel prosiect tanddaearu posibl.

Mae'r darn hwn tua 3km o hyd ac mae'n rhedeg o Stricklands Plantation ar lethrau uchaf Dyffryn Avon ger Woodgreen, yng nghornel gogledd-orllewinol y Parc Cenedlaethol, ar draws Comin Hale Purlieu, y B3080 yn Golden Cross, ac yn dod i ben yn chwarel Pound Bottom i'r dwyrain o'r B3080.



## Hynt y gwaith hyd yma


Sefydlodd National Grid grŵp cyfeirio rhanddeiliaid sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Cyngor Sir Hampshire, y New Forest Verderers, y Comisiwn Coedwigaeth, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Natural England. Rydym hefyd wedi bod yn ymwneud â pherchnogion tir lleol, cynghorwyr wardiau, aelodau o gabinet yr awdurdod lleol ac ASau lleol ac wedi cynnal digwyddiad galw heibio i'r cyhoedd.

Mae'r opsiwn lliniaru a ffefrir ac sy'n cael ei ddatblygu yn cynnwys tynnu'r darn presennol o'r llinell uwch ben a rhoi cebl tanddaear yn ei le. Yn dibynnu ar ragor o waith datblygu ac ymgynghori â rhanddeiliaid, mae'n debygol y bydd y prosiect yn cynnwys:

- Tynnu'r llinell uwch ben bresennol am bellter o tua 3km yn cynnwys tynnu tuag 8 o beilonau (yn dibynnu ar leoliad y compowndiau pen selio)
- Adeiladu dau gompownd pen selio newydd a pheilonau terfynol newydd cysylltiedig i gysylltu'r ceblau tanddaear newydd i'r llinell uwch ben a fydd ar ôl
- Gosod ceblau tanddaear newydd am tua 3km (yn dibynnu ar leoliad y compowndiau pen selio a llwybr y cebl).

Yn ôl y rhaglen bresennol, os derbynnir pob cymeradwyaeth a chaniatâd angenrheidiol, bydd y gwaith ar y safle yn dechrau yng ngwanwyn/haf 2018 a bydd yn cymryd rhyw ddwy flynedd a hanner neu dair blynedd i'w gwblhau.

# Parc Cenedlaethol y Peak District (Dwyrain)




**Y Peak District oedd Parc Cenedlaethol cyntaf Cymru a Lloegr ac fe'i dynodwyd yn 1951. Mae un o linellau uwch ben National Grid yn rhedeg trwy ran ogleddol y Parc. Mae'r llinell yn cynnwys darn o gebl foltedd uchel sy'n rhedeg trwy'r Woodhead Tunnel rhwng Dunford Bridge a Woodhead yn cysylltu rhannau dwyreiniol a gorllewinol y llinell uwch ben.**

Yng nghyfarfod y Grŵp Cynghori ar gyfer Rhanddeiliaid ym mis Medi 2015, cafodd y darn o'r llinell i'r dwyrain o Woodhead Tunnel ger Dunford Bridge ei flaenoriaethu'n un o'r pedwar darn o linell y dylid symud ymlaen â nhw fel prosiect tanddaearu posibl. Mae'r darn hwn tua 1.8km o hyd ac mae'n rhedeg tua'r dwyrain o gompownd pen selio presennol ger mynedfa ddwyreiniol y Woodhead Tunnel yn Dunford Bridge. Mae'n croesi ffin y Parc Cenedlaethol ac yna'n parhau tua'r gogledd dros flaenau afon Don a'r Trans-Pennine Trail, i'r de o bentrefan Townhead i gyfeiriad Castle Hill.





## Hynt y gwaith hyd yma


Sefydlodd National Grid grŵp cyfeirio rhanddeiliaid sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Barnsley, Cyngor Plwyf Dunford, Natural England a'r Trans Pennine Trail. Rydym hefyd wedi bod yn ymwneud â pherchnogion tir lleol, cynghorwyr wardiau, aelodau o gabinet yr awdurdod lleol ac ASau lleol ac wedi cynnal digwyddiad galw heibio i'r cyhoedd.

Mae'r opsiwn lliniaru a ffefrir ac sy'n cael ei ddatblygu yn cynnwys tynnu'r darn presennol o'r llinell uwch ben a rhoi cebl tanddaear yn ei le a symud y compownd pen selio i'r dwyrain o Woodhead Tunnel yn nes i lawr dyffryn afon Don. Yn dibynnu ar ragor o waith datblygu ac ymgynghori â rhanddeiliaid, mae'n debygol y bydd y prosiect yn cynnwys:

- Tynnu'r llinell uwch ben bresennol am bellter o tua 1.8km yn cynnwys tynnu tua saith o beilonau (yn dibynnu ar union leoliad y compownd pen selio newydd)
- Cael gwared o'r compownd pen selio presennol yn Dunford Bridge, i'r dwyrain o Woodhead Tunnel
- Adeiladu compownd pen selio newydd a pheilon terfynol newydd cysylltiedig i gysylltu'r ceblau tanddaear newydd â'r llinell uwch ben a fydd ar ôl
- Gosod ceblau tanddaear newydd am tua 1.6km (yn dibynnu ar leoliad y compownd pen selio a llwybr y cebl).
- Adeilad uno ceblau y tu allan i fynedfa twnnel Woodhead y tu mewn i gompownd gweithredol presennol National Grid
- Uno'r cebl tanddaear newydd â'r cebl presennol yn nhwnnel Woodhead.

Yn ôl y rhaglen bresennol, os derbynnir pob cymeradwyaeth a chaniatâd angenrheidiol, bydd y gwaith ar y safle yn dechrau tua diwedd 2017/dechrau 2018 a bydd yn cymryd rhyw ddwy flynedd i'w gwblhau.

# Parc Cenedlaethol Eryri




**Dynodwyd Parc Cenedlaethol Eryri yn 1951 ac ef yw'r Parc Cenedlaethol mwyaf yng Nghymru. Yn Eryri, ceir tirwedd amrywiol sy'n cynnwys mynyddoedd, dyffrynnoedd rhewlifol, rhostiroedd helaeth a dwy aber arfordirol.**

Mae pedair o linellau uwch ben National Grid yn croesi'r Parc Cenedlaethol. Yng nghyfarfod y Grŵp Cynghori ar gyfer Rhanddeiliaid ym mis Medi 2015, cafodd y darn o'r llinell ger Porthmadog ei flaenoriaethu'n un o'r pedwar darn o linell y dylid symud ymlaen â nhw fel prosiect tanddaearu posibl. Mae ceblau tanddaear eisoes yn rhedeg ar draws aber afon Glaslyn i'r gorllewin o'r darn a flaenoriaethwyd. Mae'r darn a flaenoriaethwyd yn mesur tua 3km o hyd ac mae'n rhedeg o gompownd pen selio presennol y Garth ger Minffordd (i'r dwyrain o Borthmadog) ac ar draws aber afon Dwyryd lle mae'n cyrraedd ffin orllewinol Parc Cenedlaethol Eryri. Yna mae'n parhau heibio i anheddiad bychan Cilfor.



## Hynt y gwaith hyd yma

Sefydlodd National Grid grŵp cyfeirio rhanddeiliaid sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Cadw a Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydym hefyd wedi bod yn ymwneud â pherchnogion tir lleol, cynghorwyr lleol, Aelodau Seneddol ac Aelodau Cynulliad lleol ac wedi cynnal digwyddiad galw heibio i'r cyhoedd.

Mae'r opsiwn lliniaru a ffefrir ac sy'n cael ei ddatblygu yn cynnwys tynnu'r darn presennol o'r llinell uwch ben a rhoi cebl tanddaear yn ei le. Mae ein tîm yn cynnal astudiaethau peirianyddol ac amgylcheddol i ymchwilio i wahanol ffyrdd o groesi aber afon Dwyryd a all gynnwys twnnel cebl a/neu gladdu'r cebl yn uniongyrchol. Yn dibynnu ar ragor o waith datblygu ac ymgynghori â rhanddeiliaid, mae'n debygol y bydd y prosiect yn cynnwys tynnu rhwng 2.5 a 3km o linell uwch ben, a thynnu rhwng chwech a deg peilon.

Rydym hefyd yn ystyried effaith bosibl cynlluniau cynhyrchu trydan newydd yn yr ardal, yn cynnwys atomfa newydd y bwriedir ei chodi ar Ynys Môn erbyn 2024, ar y rhan hon o'r llinell. Bydd angen codi llinell drawsyrru newydd ar draws Ynys Môn ar gyfer yr atomfa newydd, ac uwchraddio'r cylchedau rhwng Pentir a Thrawsfynydd. Mae'r cylchedau hyn yn cynnwys y darn o'r llinell yr ystyrir ei danddaearu fel rhan o'r prosiect Darpariaeth Effaith Weledol. Mae astudiaethau ar y gweill i benderfynu pa waith y bydd angen ei wneud i ddarparu ar gyfer y cynlluniau cynhyrchu newydd.

Ar hyn o bryd, rydym yn bwriadu parhau â'r gwaith cyn-adeiladu, yr arolygon amgylcheddol a'r gwaith cynllunio ar gyfer y prosiect tanddaearu, ond cydweddu'r gwaith adeiladu gyda'r prosiect i gysylltu'r atomfa er mwyn sicrhau ateb effeithlon a darbodus a lleihau'r effeithiau ar y gymuned leol a'r amgylchedd.

# 05: Menter Gwella'r Dirwedd

**Cynllun grantiau yw'r Fenter Gwella'r Dirwedd (LEI) ac mae'n rhan bwysig o brosiect Darpariaeth Effaith Weledol (VIP) National Grid. Mae ein Grŵp Cynghori ar gyfer Rhanddeiliaid yn cefnogi'r fenter ac mae'n bwriadu defnyddio rhan o lwfans Ofgem ar gyfer prosiectau llai o faint i wneud gwelliannau lleol. Mae'r fenter ar gael i bob un o'r 30 AHNE a Pharc Cenedlaethol y mae llinellau trydan uwch ben National Grid ynddynt neu'n effeithio arnynt ac a oedd yn rhan o'r asesiad o'r dirwedd a'r effaith weledol yn 2014.**

## 5.1 Gair am Fenter Gwella'r Dirwedd

Rydym wedi datblygu'r Fenter Gwella'r Dirwedd ar y cyd â rhanddeiliaid o'r ardaloedd dynodedig. Fe'i lansiwyd ym mis Mai 2016 a'r nod yw darparu hyd at £24 miliwn dros chwe blynedd (2015-2021) ar gyfer prosiectau lleol i wneud gwelliannau gweledol.

Nod cyffredinol y cynllun yw lleihau effaith weledol seilwaith trydan presennol National Grid a'i effaith ar y dirwedd a gwella ansawdd y tirweddau dynodedig yr effeithir arnynt. Dyma rai enghreifftiau o brosiectau y gellid eu hariannu:

- Gwaith i blannu coed mewn ardaloedd bychan
- Rheoli cloddiau
- Newidiadau i lwybrau troed, llwybrau beicio a llwybrau marchogaeth
- Ailadeiladu waliau cerrig sychion
- Gwella nodweddion arbennig y dirwedd, gan hybu bioamrywiaeth hefyd o bosib.

## 5.2 Sut mae'r Fenter yn gweithio

Ein rhanddeiliaid sy'n sbarduno'r Fenter Gwella'r Dirwedd. Mae pob un o'r 30 o Bartneriaethau AHNE ac Awdurdodau Parc Cenedlaethol sy'n dod o dan y prosiect yn cael cyflwyno ceisiadau i ariannu cynlluniau. Mae dwy ffenest ymgeisio bob blwyddyn. Roedd y ffenest gyntaf ym mis Mai 2016 a bydd yr ail ffenest yn agor ym mis Medi 2016.

Caiff pob cais ei asesu gan swyddog grantiau a chynghorydd tirwedd cyn ei gyflwyno i banel cymeradwyo. Mae gan y panel cymeradwyo gadeirydd annibynnol ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o Cadw, Historic England, Cyfoeth Naturiol Cymru a Natural England. Bydd y panel yn adolygu'r ceisiadau ac yn penderfynu pa brosiectau y mae'n credu y dylid eu hariannu. Ofgem fydd yn penderfynu'n derfynol pa gynlluniau i'w hariannu, ar sail argymhellion y panel cymeradwyo.

Cewch ragor o wybodaeth am y Fenter Gwella'r Dirwedd a'r broses ymgeisio ar ein gwefan arbennig: **lei.nationalgrid.com**



AHNE y Chilterns

# 06: Y camau nesaf a'r llinell amser

Yn ystod yr haf/hydref 2016, byddwn yn dal i wneud gwaith datblygu ar gyfer y pedwar cynllun blaenoriaeth. Byddwn yn cynnal arolygon amgylcheddol a pheirianyddol, yn trafod hawliau tir a gofynion mynediad gyda pherchnogion tir, yn trafod gofynion caniatâd gydag awdurdodau cynllunio lleol a chyrff perthnasol eraill ac yn ymgynghori â rhanddeiliad a chymunedau lleol.

Bydd ein Grŵp Cynghori ar gyfer Rhanddeiliaid yn adolygu'r gwaith gyda'r bwriad o gadarnhau yn hydref 2016 y bydd y cynlluniau tanddaearu'n cael eu gweithredu. Byddwn hefyd yn ceisio cadarnhad gan Ofgem y bydd y gwahanol gynlluniau'n cael eu hariannu. Ein nod ar hyn o bryd yw cyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer y cynlluniau a gadarnheir tua chanol 2017 gan wneud y gwaith adeiladu rhwng 2018 a 2021. Er bod y pedwar cynllun yn cydredeg ar hyn o bryd, gall gwahanol amodau yn yr ardaloedd unigol olygu bod rhaglenni'r prosiectau yn amrywio.

O ran y Fenter Gwella'r Dirwedd, bydd y panel cymeradwyo'n adolygu cylch cyntaf y ceisiadau ac yn gwneud ei argymhellion yn hydref 2016. Ar sail ei argymhellion, bydd National Grid yn gofyn i Ofgem gadarnhau'r prosiectau llwyddiannus.

Bydd y ffenest ymgeisio nesaf am brosiectau o dan y Fenter Gwella'r Dirwedd yn agor ym mis Medi 2016. Bydd pob un o'r 30 AHNE a Pharc Cenedlaethol sy'n dod o dan y prosiect hwn yn gymwys i gyflwyno prosiectau y tro hwn eto.

Byddwn yn dal i gyhoeddi newyddion am hynt y prosiect Darpariaeth Effaith Weledol e.e. ar ein gwefan: **www.nationalgrid.com/VIP**

**Llinell amser y prosiect Darpariaeth Effaith Weledol**

### HAF/HYDREF 2016

- Arolygon ar gyfer y cynlluniau blaenoriaeth yn parhau
- Digwyddiadau ar gyfer y cyhoedd yn y pedair ardal flaenoriaeth
- Y Grŵp Cynghori ar gyfer Rhanddeiliaid yn adolygu cyfraniadau technegol a chyhoeddus i gadarnhau'r cynlluniau blaenoriaeth
- Panel y Fenter Gwella'r Dirwedd yn cwrdd i ddewis y garfan gyntaf o brosiectau.



### 2016-2018

- Penderfynu ar lwybrau'r cynlluniau, eu datblygu a sicrhau caniatâd
- Ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol
- Rhagor o gylchoedd ymgeisio ar gyfer y Fenter Gwella'r Dirwedd bob chwe mis.



### 2018-2021

- Gwaith adeiladu
- Prosiectau cyntaf y Fenter Gwella'r Dirwedd yn dechrau
- Rhagor o gylchoedd ymgeisio ar gyfer y Fenter Gwella'r Dirwedd bob chwe mis.





**RHAGOR O WYBODAETH:**
Llinell arbennig y prosiect Darpariaeth Effaith Weledol: **0330 134 0051**
Ewch i'n gwefan yn: **www.nationalgrid.com/VIP**
Ebostiwch: **visualimpact@nationalgrid.com**
Ysgrifennwch i'n cyfeiriad rhadbost gan nodi: **"FREEPOST VISUAL IMPACT PROVISION"**

---

**National Grid plc**
National Grid House, Warwick Technology Park, Gallows Hill, Warwick, CV34 6DA, United Kingdom
Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr, Rhif 4031152
**www.nationalgrid.com**